Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Canolfan Deulu St Paul**

**Ger-Y-Llan**
**Teras Parc Brigyn**
**Llanelli**
**SA15 1DP**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/01/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Canolfan Deulu St Paul

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Person Cofrestredig | Debra James |
| Lleoedd cofrestredig | 20 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 17 Gorffennaf 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant yng Nghanolfan Deulu St Paul yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus iawn. Mae'r plant yn setlo'n gyflym ac yn gyfarwydd â'r arferion. Maent yn rhyngweithio'n llawn brwdfrydedd â'r bobl o'u cwmpas, gan rannu a chydweithio'n llwyddiannus. Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu, ac yn dangos mwynhad a theimladau o gyflawniad pan maent yn gwneud pethau drostynt eu hunain.

Mae'r staff yn gweithio'n gyson i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn y plant ac maent yn gweithredu arferion hylendid a glanhau priodol. Rheola'r staff y rhyngweithio'n dda ac maent yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol. Mae ganddynt gydberthnasau da â'r plant yn eu gofal. Mae'r staff yn gweithio'n effeithiol i hyrwyddo dysgu a datblygiad y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd diogel a chroesawgar. Maent yn cwblhau gwiriadau diogelwch ac ymarferion tân rheolaidd. Maent yn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r risgiau a'u bod yn cwblhau asesiadau risg pwrpasol, yn rheolaidd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnig amrywiaeth eang o adnoddau, teganau a chyfarpar sy'n addas ar gyfer ystod oedran y plant yn eu gofal.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithio'n effeithiol ac yn darparu datganiad o ddiben clir. Mae ganddynt bolisïau ar waith sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, ond nid ydynt yn adlewyrchu ymarfer a chofrestru'r gwasanaeth yn llawn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r staff ac adnoddau eraill yn llwyddiannus ac yn sicrhau bod digon o staff addas i ddiwallu anghenion y plant. Maent wedi datblygu cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni, gan ddarparu gwybodaeth iddynt, ac yn gweithio gydag asiantaethau allanol i gefnogi anghenion a nodwyd.

**Llesiant** **Rhagorol**

Mae'r plant yn cyfleu eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion i'r staff sy'n eu cefnogi. Cânt ymateb da i'w dull cyfathrebu â geiriau a'u dull cyfathrebu dieiriau. Caiff y plant gyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am eu chwarae a'r hyn sy'n effeithio arnynt. Er enghraifft, lle y maent am chwarae, yr hyn yr hoffent chwarae â nhw neu beth i'w fwyta yn ystod amser byrbryd.

Mae'r plant yn ymdopi'n dda â chael eu gwahanu gan fod trefniadau trosglwyddo dyddiol yn cydnabod ac yn cefnogi eu hanghenion unigol yn llawn ac yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol. Mae bron pob un o'r plant yn cyrraedd y gwasanaeth ac yn mynd i'r ystafell o'u dewis yn hyderus. Caiff y plant sydd ychydig yn gynhyrfus amser i setlo a chânt sicrwydd gan y staff. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, gan feithrin cydberthnasau cadarn â'r staff a phlant eraill. Mae'r plant yn gyfarwydd ag arferion y gwasanaeth. Er enghraifft, mae'r plant yn gwybod eu ffordd yn ystod amser byrbryd ac yn gwybod ble i eistedd heb unrhyw anogaeth. Mae'r plant yn mwynhau archwilio'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn gyson ysgogol ac mae'r plant yn cyd-dynnu'n dda am eu hoedran. Ymateba'r plant yn gadarnhaol i gwestiynau neu geisiadau gan y staff. Er enghraifft, wrth chwarae â dinosor, gofynnodd aelod o'r staff, *“what are you feeding the dinosaur?”* Edrychodd y plentyn ar yr aelod o'r staff gan ddweud *“coins - look”* wrth chwerthin. Mae'r plant yn cofleidio'r staff yn ddigymell ac yn mynd atynt am sicrwydd. Gwnaeth y plant chwarae'n briodol ar gyfer eu hoedran a'u cyfnod datblygu, gan ymateb i ganmoliaeth gadarnhaol gyson y staff.

Mae'r plant yn llwyr ymroi i chwarae. Er enghraifft, gwnaeth un plentyn ddyfalbarhau am gyfnod estynedig o amser i gwblhau tasg er mwyn gosod dau ddarn o jig-so gyda'i gilydd. Mae'r plant yn archwilio'r adnoddau a'r gweithgareddau a ddarperir yn frwdfrydig. Maent yn mwynhau amrywiaeth dda iawn o gyfleoedd diddorol dan do a rhoddir rhyddid iddynt archwilio eu hamgylchedd yn ddiogel dan do ac yn yr awyr agored.

Mae'r plant yn dangos hunangymhelliad i ddechrau eu chwarae eu hunain a dylanwadu ar eu tasgau a'u gweithgareddau am fod y gweithgareddau yn bennaf yn rhai a arweinir gan blant. Maent yn defnyddio'r teganau'n frwd ac yn ymgysylltu â meysydd dysgu. Er enghraifft, gwnaeth y plant weiddi “*ready, steady, go*” yn yr ardal byd bach wrth iddynt ollwng y ceir i lawr ramp y garej. Gwnaethant hefyd fwynhau coginio yn y gegin chwarae rôl. Caiff diddordebau'r plant eu dilyn. Er enghraifft, aeth un plentyn at aelod o'r staff â llyfr yn ei meddiant. Gofynnodd yr aelod o'r staff *“do you want me to read this to you?”* a gwnaethant eistedd gyda'i gilydd i ddarllen y llyfr. Mae'r plant yn cael cyfleoedd arloesol sy'n addas ar gyfer eu datblygiad sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol ac yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau eu hunain yn hyderus. Caiff y plant rai cyfleoedd da iawn i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud rhai pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae bron pob aelod o'r staff yn deall yn llwyr y polisïau ac yn eu rhoi ar waith yn gyson ac yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol. Maent yn atgoffa'r plant i gadw'n ddiogel, gan eu hannog i fod yn ymwybodol o'u hamgylchedd a risgiau posibl. Er enghraifft, pan oedd y plant yn yr awyr agored, gwnaeth y staff annog y plant i gamu o'r neilltu wedi iddynt fynd i lawr y sleid. Maent yn cynnig amrywiaeth da o fyrbrydau iach i'r plant ac yn brwsio eu dannedd yn ddyddiol. Mae'r staff yn cefnogi llesiant y plant ac yn ymwybodol o'u hanghenion a'u dewisiadau unigol. Maent yn nodi ac yn rheoli risgiau ac yn gweithredu arferion glanhau cadarn ac arferion hylendid da. Caiff rhestrau gwirio asesiad risg a glanhau dyddiol ac wythnosol eu cwblhau gan y staff. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda iawn o'u cyfrifoldebau i ddiogelu'r plant a gwnaethant ddweud wrthym yn hyderus yr hyn y byddent yn ei wneud pe bai pryder yn ymwneud ag amddiffyn plant.

Mae bron pob aelod o'r staff yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson. Maent yn annog y plant i gymryd eu tro, gan ddefnyddio tôn llais cadarnhaol bob amser ac ymdrinnir ag anghytundebau'r plant yn dda. Mae bron pob aelod o'r staff yn ymateb yn gyson; maent yn gwrando ar safbwyntiau'r plant ac yn eu parchu. Ymatebir yn gynnes i geisiadau neu gwestiynau gan y plant ac maent yn dangos diddordeb gwirioneddol yn yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud. Mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol sy'n dangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae'r staff yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol. Maent yn siarad â'r plant, gan amrywio eu defnydd o iaith er mwyn gweddu eu hoedran a'u cyfnod datblygu.

Caiff ystod eang o weithgareddau chwarae a dysgu eu cynllunio a'u darparu gan y staff. Maent yn dilyn systemau cynllunio effeithiol sy'n cynnwys nifer o sgiliau, gan gynnwys sgiliau iaith a sgiliau creadigol a datblygiad corfforol. Mae'r staff hefyd yn sicrhau bod eu cynlluniau yn hyblyg er mwyn iddynt allu addasu eu cynlluniau fel eu bod yn addas ar gyfer anghenion a diddordebau'r plant. Er enghraifft, roedd plentyn yn taro caead cynhwysydd pan oedd yn yr ardal dywod ac awgrymodd y staff ei fod yn gwneud castell tywod. Gofynnwyd i'r plant *"what do we need to make a sandcastle?"* Gwnaethant aros i'r plant ymateb cyn dweud, *"we need to add water so we can build sandcastles."* Arllwysodd y staff ddŵr i'r twba, gan ofyn *"Can you help?"* i'r plant, ac ymatebwyd yn frwdfrydig. Mae'r staff yn cwblhau gwerthusiadau dyddiol o'r gweithgareddau a gynllunnir, gan adolygu ymgysylltiad y plant a chofnodi cyfleoedd i'w gwella. Maent yn cynllunio'n dda ar gyfer y camau nesaf ac yn adolygu cynnydd unigol y plant yn rheolaidd. Mae'r staff yn gwbl ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant a sut i'w cefnogi. Er enghraifft, defnyddir iaith syml ac ailadroddus gan y staff gyda rhai o'r plant, wrth annog eraill i ddefnyddio brawddegau mwy cymhleth. Mae'r staff yn cefnogi ac yn darparu ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol, fel y plant gydag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol neu anghenion meddygol/maethol yn eu gofal. Cymerant gamau pwrpasol, a hynny mewn modd amserol, wrth gydnabod y gall fod gan blant anghenion ychwanegol neu anghenion fydd yn dod i'r amlwg a gwnânt ddefnydd effeithiol o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael iddynt.

## Yr Amgylchedd Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da dan do. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu gweithdrefnau glanhau rheolaidd sy'n adlewyrchu arferion hylendid da. Mae eu harferion rheoli heintiau da yn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch y plant i'r eithaf. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cwblhau asesiadau risg cyffredinol ac asesiadau risg tân effeithiol a chynhwysfawr, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a gweithredir arnynt. Maent yn cynnwys ystod o feysydd, gan nodi risgiau yn ogystal â rheoli mesurau a roddwyd ar waith i leihau risgiau.  Caiff gwiriadau a gwaith cynnal a chadw eu cwblhau yn rheolaidd, gan gynnwys ymarferion tân a phrofion diogelwch a gwaith cynnal a chadw cyfarpar diogelwch tân.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae dan do dda er mwyn galluogi'r plant i symud yn rhydd. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu'r rhan fwyaf o anghenion y plant ac yn eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial. Gall y plant ddefnyddio tair ystafell wahanol yn ogystal â'r ardal awyr agored ac mae amrywiaeth eang o deganau ac adnoddau ar gael yno i'r plant eu mwynhau. Er enghraifft, maent yn cynnig deunyddiau creadigol, cyfleoedd chwarae tywod a dŵr, teganau synhwyraidd, amrywiaeth o beli, adnoddau chwarae rôl, teganau adeiladu a sleidiau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu'r amgylchedd yn dda er mwyn iddo gynnig amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae sy'n addas i bron pob ystod oedran y gofelir amdanynt. Mae'r safle yn groesawgar, yn gynnes ac yn hygyrch i bawb. Gall y plant gael gafael ar deganau ac adnoddau yn annibynnol.

Mae ardal chwarae awyr agored sylweddol sy'n cael ei chynnal a'i chadw'n dda ac sy'n cynnig cyfleoedd chwarae difyr i'r plant. Maent yn cynnig rhai adnoddau naturiol ac adnoddau pren a rhai sy'n hyrwyddo amrywiaeth ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod bron pob plentyn yn gallu cael gafael ar amrywiaeth eang o ddodrefn, teganau a chyfarpar dan do o ansawdd da, sy'n addas ar gyfer eu hoedran er mwyn ennyn diddordeb a dychymyg y plant.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Da**

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben cyfredol ac effeithiol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir ac sy'n cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad amrywiaeth eang o bolisïau sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol ganddynt ac maent yn sicrhau bod y rhain yn cael eu rhoi ar waith i raddau helaeth. Fodd bynnag, nid ydynt yn adlewyrchu'r lleoliad na'r prosesau a ddilynir ganddynt yn llawn. Er enghraifft, nid oedd y polisi newid cewynnau yn cael ei ddilyn yn llawn yn ymarferol ac nid oedd rhai o'r polisïau yn adlewyrchu'r cofrestriad presennol. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r person cofrestredig wedi cadarnhau ei fod wedi dechrau'r broses o ddiwygio'r polisïau i adlewyrchu'r lleoliad a'i brosesau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y cofnodion gofynnol yn cael eu cadw'n gywir. Er enghraifft, cofnodion damweiniau a digwyddiadau a chontractau'r plant. Fodd bynnag, nid yw'r ffurflenni damweiniau bob amser yn cynnwys llofnod y rhiant er mwyn cydnabod y cofnod. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r person cofrestredig wedi cadarnhau bod y rhieni yn llofnodi'r cofnodion damweiniau/digwyddiadau. Maent yn sicrhau y caiff unrhyw bryderon eu cofnodi a'u hadolygu'n rheolaidd. Maent yn ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru ac yn sicrhau eu bod yn cyflwyno hysbysiadau am ddigwyddiadau o bwys neu newidiadau i'r gwasanaeth yn amserol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgymryd â phrosesau hunanwerthuso gweithgar. Maent yn gofyn am awgrymiadau gan y plant, eu rhieni/gofalwyr, staff a phartneriaid eraill â diddordeb ac yn gweithredu arnynt. Maent yn cynhyrchu adroddiad ansawdd gofal da iawn sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir, blaenoriaethau o ran gwelliannau a sut y caiff y rhain eu mesur.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn proses recriwtio ddiogel er mwyn diogelu'r plant. Mae ganddynt systemau boddhaol ar waith i ddiweddaru gwiriadau ynglŷn ag addasrwydd, fel sy'n ofynnol, ac mae'r person cofrestredig yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r gwiriadau sydd angen eu cynnal o ran addasrwydd y staff. Mae'r broses rheoli perfformiad yn foddhaol ac yn annog y staff i fynychu hyfforddiant amrywiol. Cynhelir sesiynau arfarnu a goruchwylio sylfaenol yn rheolaidd ac mae ffocws ar gefnogi llesiant y staff. Dywedodd y staff eu bod wedi setlo'n dda, yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda gan y tîm rheoli a'u bod yn mwynhau eu rolau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cofnodi amseroedd presenoldeb gwirioneddol y plant ac yn sicrhau bod y staff yn cael eu lleoli'n dda i ddiwallu anghenion y plant a'r cymarebau staffio. Fodd bynnag, nid ydynt yn cofnodi'r amseroedd pan fydd y plant a'r staff yn gadael y gwasanaeth yn gyson. Ers yr arolygiad, mae'r person cofrestredig wedi cadarnhau bod proses ar waith i sicrhau y cofnodir pryd y bydd pob aelod o'r staff a'r plant yn gadael y lleoliad yn gyson.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â'r rhieni yn ddigonol. At ei gilydd, maent yn rhoi gwybodaeth i'r rhieni drwy adborth ar lafar ar ddiwedd y sesiwn. Dywedodd y rhieni eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth, eu bod yn teimlo

bod eu plant yn datblygu a'i bod yn hawdd siarad â'r staff. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad gysylltiadau da ag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol, y gymuned a rhanddeiliaid eraill. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i wybodaeth a chyngor a roddir i wella llesiant y plant a'u hanghenion dynodedig. Maent yn sicrhau, pan fydd ganddynt bryderon ynglŷn â chynnydd neu ddatblygiad plant, bod gweithdrefnau a phrotocolau ar waith i rannu gwybodaeth.

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1 Sicrhau y caiff polisïau eu diweddaru i adlewyrchu'r gwasanaeth a'u bod yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ac arferion gorau.

A2 Sicrhau bod y rhieni yn llofnodi'r ffurflenni damweiniau a digwyddiadau yn gyson er mwyn cydnabod y cofnod.

A3 Sicrhau y caiff amseroedd gadael y plant a'r staff eu cofnodi'n gyson.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 06/04/2023